# Diwygiadau i Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer diwedd y Cyfnod Pontio

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 20 Awst 2020
Dyddiad cau: 16 Medi 2020

## Crynodeb o ymatebion

PDF
Gweld crynodeb-or-ymatebion-ir-ymgynghoriad-cyfraith-yr-ue-a-ddargedwir-ar-gyfer-diogelwch-a-hylendid-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid-ar-gyfer-diwedd-y-cyfnod-pontio.pdf as PDF(Open in a new window) (207.8 KB)

## Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiadau pellach i reoliadau bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig (DU), gan gynnwys y rhai sy'n ofynnol trwy gymhwyso'r Cytundeb Ymadael a Phrotocol Gogledd Iwerddon, sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid yn parhau i fod yn effeithiol ar ddiwedd y Cyfnod Pontio.

## Pwrpas yr Ymgynghoriad

Ceisio barn busnesau, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill, awdurdodau lleol a'r cyhoedd ehangach ar newidiadau y mae Gweinidogion yn bwriadu eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

## I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Pob busnes bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig (DU), awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn cyfraith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

## Pecyn ymgynghori

PDF
Gweld Diwygiadau i Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir ar gyfer Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ar gyfer diwedd y C as PDF(Open in a new window) (176.38 KB)

## Sut i ymateb

Mae'n rhaid i ymatebion ddod i law erbyn **16 Medi 2020.**

Dylid anfon ymatebion dros e-bost at: EUExitPolicy@food.gov.uk

## Cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae’r ymgynghoriad hwn wedi’i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi’i lunio, bydd wedi’i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.